O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 442 (Cy.64)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gwelliant Glandyfi, Ceredigion) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 16 Chwefror 2011

Yn dod i rym 25 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gwelliant Glandyfi, Ceredigion) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu ar gyfer gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 25 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darn o'r gefnffordd.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 16 Chwefror 2011

J COLLINS
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 303 o fetrau i'r de o ganolbwynt y bont sy'n cludo'r A487 dros Afon Melindwr hyd at bwynt 58 o fetrau i'r gogledd o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Gaerhedyn.